Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

**Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)**
**Ymgyngoriadau ac Arolygon Hysbysiad**
**Preifatrwydd**

## 1. Cyflwyniad

Mae GIG Cymru yn cynnwys nifer o sefydliadau iechyd, ac un o'r rhain yw Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), sydd â rhan arweiniol i'w chwarae yn y gwaith o addysgu, hyfforddi, datblygu ac adeiladu'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru, er mwyn sicrhau gofal o safon uchel i bobl Cymru.

Mae prif swyddogaethau AaGIC yn cynnwys:

- Cydweithio mewn cysylltiad agos â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, a chynllunio ar gyfer y dyfodol i sicrhau bod y gweithlu iechyd a gofal yn diwallu anghenion y GIG a phobl Cymru, nawr ac yn y dyfodol;

- Bod yn ffynhonnell wybodaeth a chudd-wybodaeth ddibynadwy o ran y gweithlu iechyd a gofal yng Nghymru;

- Comisiynu, dylunio a darparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel, sy'n rhoi gwerth am arian, yn unol â safonau;

- Defnyddio addysg, hyfforddiant, a datblygiad i annog a hwyluso dilyniant gyrfa;

- Cefnogi'r gwaith o reoleiddio addysg, hyfforddiant a gwasanaethau drwy chwarae rôl allweddol wrth gynrychioli Cymru, a chydweithio'n agos â rheoleiddwyr;

- Datblygu arweinwyr gofal iechyd ar gyfer heddiw a'r dyfodol;

- Darparu cyfleoedd i'r gweithlu iechyd a gofal ddatblygu sgiliau newydd;

- Hybu gyrfaoedd ym maes iechyd a gofal yng Nghymru, a hybu Cymru fel lle i fyw;

- Cefnogi'r gweithlu proffesiynol a'r proffesiwn datblygu sefydliadol yng Nghymru; a

- Gwella'r hyn a wnawn a sut rydym yn ei gyflawni yn barhaus.

Paratowyd yr hysbysiad hwn gan Dîm Gweithredol AaGIC i egluro'r rheswm dros ddefnyddio gwybodaeth ar gyfer ymgyngoriadau ac arolygon.

O bryd i'w gilydd, fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan adrannau amrywiol yn AaGIC, gofynnir am adborth gan y cyhoedd, rhanddeiliaid, defnyddwyr gwasanaeth a phartïon eraill, ac am eu barn ynglŷn â phynciau a gwasanaethau penodol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau y bwriedir eu darparu, gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n barod a rhai sy'n mynd drwy newidiadau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn ymwneud â sut y defnyddir gwybodaeth cysylltwch â'r person sy'n cael ei enwi ar waelod yr hysbysiad hwn.

**Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod llawer o'r ymgyngoriadau neu'r arolygon sy'n gofyn am adborth yn rhai lle nad oes angen cynnwys data personol neu ddyfeisiau adnabod. Yn yr achosion hyn, os oes angen cynnwys data personol, byddwch yn cael eich hysbysu pan fydd ymgynghoriad yn cael ei lansio neu arolwg yn cael ei ryddhau, a thrwy ddefnyddio'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn.**

## 2. Eich hawliau

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn ymdrin â hawliau defnyddio data dan ddeddfwriaeth o'r enw y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae'n pwysleisio bod angen i AaGIC egluro sut rydym yn defnyddio gwybodaeth ar gyfer ymgyngoriadau ac arolygon.

Bydd yr wybodaeth a roddwn i chi am y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth:

- Yn fyr, yn hawdd ei darllen ac yn hygyrch;
- Wedi'i hysgrifennu mewn iaith syml, glir; ac
- Am ddim.

## 3. Pa gyfreithiau rydym yn eu defnyddio?

Y gyfraith sy'n pennu sut y gallwn ddefnyddio gwybodaeth. Yn y meysydd hynny lle defnyddir gwybodaeth adnabyddadwy, rydym yn cydymffurfio â'r cyfreithiau isod:

- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
- Bil Diogelu Data y DU
- Deddf Hawliau Dynol
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth
- Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin
- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron
- Deddf y Comisiwn Archwilio
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio

O bryd i’w gilydd bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), fel rhan o’i waith, yn cynnal ymgyngoriadau ac arolygon er mwyn cael adborth am feysydd gwaith penodol. Ar gyfer y meysydd gwaith hyn AaGIC fydd deiliad a defnyddiwr yr wybodaeth hon.

## 4. Sut rydym yn defnyddio data ar gyfer ymgyngoriadau ac arolygon?

Mae’n ofynnol i AaGIC ddefnyddio gwybodaeth er mwyn cynnal ymgyngoriadau ac arolygon ac er mwyn ymgysylltu â’r rhai rydym mewn cysylltiad â hwy.

Gall ymgyngoriadau ac arolygon gynnwys cynnal:

- Cyfweliadau cychwynnol â rhanddeiliaid;
- Cyfweliadau dilynol;
- Gweminarau;
- Cyfarfodydd grwpiau cymheiriaid mewnol;
- Gweithdai rhanddeiliaid;
- Ymatebion i holiaduron ar-lein; ac
- Adroddiadau ystadegol.

Mae canlyniadau llawer o ymgyngoriadau ac arolygon yn seiliedig ar goladu data a deilliannau sydd gan amlaf yn anadnabyddadwy. O ganlyniad, nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei phriodoli i unigolyn neu unigolion penodol. Er hyn, mae data sydd eu hangen mewn prosesau o’r fath yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y mesurau rheoli sy’n ofynnol ar eu cyfer yn addas a nodi sut y byddant yn cael eu defnyddio ar ôl iddynt gael eu cwblhau (e.e. papurau Bwrdd, adroddiadau, dadansoddiad ystadegol).

Byddwn hefyd yn defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei rhoi’n wirfoddol i’n galluogi i ymateb i ymholiadau, neu sylwadau sydd gennych ac i sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i’r rhain.

Os bydd unrhyw wybodaeth a roddir gennych yn wirfoddol yn cynnwys unrhyw gategorïau arbennig o ddata personol (er enghraifft gwybodaeth am eich iechyd, hil neu grefydd), rhaid i chi sicrhau cyn rhoi’r wybodaeth hon eich bod yn fodlon i ni ei defnyddio at y dibenion a nodir yn y Polisi Preifatrwydd hwn.

## 5. Beth yw pwrpas prosesu gwybodaeth?

Mae pwrpas cynnal ymgyngoriadau ac arolygon yn cynnwys: nodi beth yw’r ffordd orau o ddeall beth mae ar ein partneriaid, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth ei angen gan AaGIC; canfod sut y gall AaGIC eu cefnogi yn y ffordd orau; a rhoi cyfle i’r rhai sy’n gymwys gyfrannu tuag at ymgyngoriadau ac arolygon, sy’n un o brif flaenoriaethau AaGIC.

Mae’r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ymdrin â defnydd penodol o wybodaeth ar gyfer ymgyngoriadau ac arolygon. Er enghraifft, mae’r ymgyngoriadau a’r arolygon sydd wedi’u cynnal yn y gorffennol yn cynnwys:

- Cynllunio a moderneiddio’r gweithlu
- Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Asesiad o Anghenion Iechyd
- Rhaglenni Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Hyfforddiant penodol (e.e. Hyfforddiant Seiciatreg Craidd)
- Ymarfer Uwch
- Ôl-radd ac Ôl-gofrestru

**Buddiant dilys**

Mae gan AaGIC a’i holl wasanaethau “fuddiant dilys” mewn parhau i brosesu data personol yn yr achosion a ganlyn:

i) os yw parhau i brosesu data personol penodol yn golygu buddiant gwirioneddol i’r busnes;

ii) os yw prosesu’r data’n wirioneddol angenrheidiol er mwyn i’r busnes allu sicrhau’r buddiant hwnnw (h.y. ni ellir sicrhau’r buddiant mewn ffordd arall sy’n gymesur); ac

iii) os yw prosesu’r data’n cael ei gydbwyso â’r effaith y bydd prosesu o’r fath yn ei gael ar hawliau a rhyddid sylfaenol gwrthrychau data.

Mae’n bwysig eich bod yn deall pwy sy’n gyfrifol am gadw eich data’n ddiogel. Mae AaGIC yn casglu data a, lle bo’n gymwys, eich data personol â’ch cydsyniad at y dibenion a nodir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

Bydd unrhyw ddata nad oes eu hangen yn cael eu dileu ac ni fyddant yn cael eu defnyddio gan yr ymgynghoriad neu’r arolwg penodol. Fel rheol, nid yw adroddiad am ddeilliannau yn wybodaeth adnabyddadwy, ac o ganlyniad nid yw’n cynnwys unrhyw ddata personol na dyfeisiau adnabod unigol.

## 6. Rhannu eich gwybodaeth

Lle bo’n gymwys, ni chaniateir rhannu data â neb ar wahân i’r rhai sy’n ymwneud â chynnal ymgyngoriadau ac arolygon yn AaGIC. Mewn rhai amgylchiadau gallai hyn gynnwys cwmnïau allanol a allai fod yn cyflawni gwaith yn ymwneud â pharatoi ymgynghoriad neu’n helpu i goladu canlyniadau arolwg.

Fodd bynnag, byddwch yn cael eich hysbysu ynglŷn â hyn os yw’n bosibl gwneud hynny. Os oes angen defnyddio data personol bydd Asesiad o’r Effaith ar Breifatrwydd yn cael ei wneud cyn iddynt gael eu defnyddio.

Mae’n bwysig nodi bod gan unrhyw un sy’n derbyn gwybodaeth amdanoch chi ddyletswydd gyfreithiol i gadw’r wybodaeth yn gyfrinachol. Ni fyddwn yn gofyn,

yn defnyddio nac yn rhannu mwy o wybodaeth nag sydd ei hangen ar gyfer diben penodol.

Ni fyddwn byth yn gwerthu eich gwybodaeth ac ni fyddwn yn ei rhannu heb yr awdurdod cyfreithiol priodol.

## 7. Diogelwch eich Gwybodaeth

Mae AaGIC yn cymryd y cyfrifoldeb i ofalu am eich holl wybodaeth o ddifri. Mae hyn yn wir am wybodaeth electronig a gwybodaeth ar bapur, boed yn wybodaeth adnabyddadwy ai peidio.

Mae AaGIC hefyd yn cyflogi rhywun sy'n gyfrifol am reoli gwybodaeth a chyfrinachedd gwybodaeth er mwyn:

- sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei diogelu; a
- rhoi gwybod i chi sut y bydd yn cael ei defnyddio.

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff gael hyfforddiant rheolaidd. Mae hyfforddiant cynhwysfawr yn ofynnol er mwyn helpu i ddiogelu'r wybodaeth sydd wedi cael ei rhoi, ei defnyddio a'i phrosesu gan AaGIC.

Mae'r hyfforddiant yn sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn AaGIC (gan gynnwys y GIG yn ehangach), yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth ymdrin â'ch gwybodaeth, pa bynnag adran y maent yn gweithio ynddi.

## 8. Beth yw eich hawliau?

Os yw'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu amdanoch yn adnabyddadwy ac yn berthnasol, bydd AaGIC yn sicrhau eich bod yn gallu cael mynediad ati. Pwrpas hyn yw sicrhau eich bod yn gwybod beth rydym yn ei gadw.

Mae gennych hawl:

- i wybod sut y defnyddir eich gwybodaeth;
- i gael copïau o wybodaeth a gedwir amdanoch.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau mynediad cysylltwch â'r person sy'n cael ei enwi isod.

Mae AaGIC yn ceisio ateb pob cais am fynediad at wybodaeth cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae'n ddyletswydd ar y sefydliad i ddarparu ymateb i'ch cais cyn pen mis (30 diwrnod calendr) ar ôl ei dderbyn, ond gellir ymestyn y cyfnod hwn os yw'r cais yn un cymhleth a helaeth.

Bydd AaGIC yn edrych ar eich cais er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn wybodaeth bersonol. Gan amlaf bydd yn amlwg bod yr wybodaeth yn bersonol, ond bydd AaGIC yn cysylltu â chi os nad yw hynny'n glir yn eich cais.

### Oes rhaid i mi dalu?

Bydd yr wybodaeth yn cael ei darparu am ddim.

Er hyn, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am ffi fach. Byddai hyn yn digwydd os yw'r cais yn un mawr neu'n cael ei ailadrodd. Bydd y ffi'n seiliedig ar gost darparu'r wybodaeth.
Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ffioedd am wybodaeth, cysylltwch â'r person sy'n cael ei enwi ar waelod yr hysbysiad hwn.

### Sut fydd gwybodaeth yn cael ei darparu?

Os yw eich gwybodaeth yn adnabyddadwy, a'i bod yn wybodaeth electronig, bydd yn cael ei darparu mewn fformat y gellir ei ddefnyddio ar system arall (h.y. Microsoft Word neu Excel). Fel arall, bydd yn cael ei darparu ar bapur.

## 9. Caniatâd (cydsyniad)

Lle gallai gwybodaeth bersonol gael ei chasglu, ac er mwyn i'r defnydd o'r wybodaeth bersonol fod yn gyfreithlon, mae'n bosibl y bydd AaGIC yn gofyn am ganiatâd gennych. Nid oes angen gwneud hyn os yw'r defnydd ar gyfer rhesymau cyfreithlon dan y rheoliadau presennol. Asesir addasrwydd unrhyw gynigion i ddatblygu ymgynghoriad neu arolwg yng nghamau cychwynnol y prosiect.

Bydd AaGIC yn gofyn i gyfranwyr a chyfranogwyr am ganiatâd os yw gwybodaeth bersonol yn rhan o'r ymgynghoriad neu'r arolwg. Bydd AaGIC yn sicrhau bod unrhyw gydsyniad a roddir yn cael ei roi heb bwysau, a bod y cydsyniad yn benodol, yn glir ac yn seiliedig ar ffeithiau. Rhaid i bob unigolyn gymryd "camau cadarnhaol clir" i ddangos ei fod yn cydsynio â'r modd y defnyddir y data ar gyfer yr ymgynghoriad neu'r arolwg penodol a rhaid iddynt gael eu hysbysu ynglŷn â'r defnydd a wneir.

Ar yr adeg y gofynnir am gydsyniad, bydd AaGIC yn egluro wrth unigolion y gallant dynnu cydsyniad yn ôl unrhyw bryd. Bydd hefyd yn egluro na fyddai hyn yn golygu bod prosesu data cyn i'r cydsyniad gael ei dynnu'n ôl yn anghyfreithlon, a bod y penderfyniad yn cael ei wneud drwy ystyried a yw'r data hefyd yn adnabyddadwy ar adeg y cais.

Rhaid i unigolion hefyd allu tynnu cydsyniad yn ôl yn rhwydd unrhyw bryd a defnyddio'u hawl i gael eu hanghofio. Os tynnir cydsyniad yn ôl, bydd AaGIC yn gallu darparu datganiad o fuddiant dilys ar gyfer ei ofynion ei hun i brosiectau sy'n cael eu harwain gan GIG Cymru. Fodd bynnag, os yw'r data'n anadnabyddadwy, ac os nad oes modd adnabod gwrthrych y data o'r data a gasglwyd, ni fydd yr hawl i unigolyn gael ei anghofio'n gymwys.

Fodd bynnag, bydd AaGIC yn nodi yn nodyn briffio pob datganiad a yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad neu'r arolwg yn cynnwys defnyddio dyfeisiau adnabod.

## 10. Beth am atal defnydd o wybodaeth?

Byddai atal defnydd o wybodaeth fel arfer yn gymwys i wybodaeth bersonol ac nid i ddata anadnabyddadwy a gedwir gan AaGIC. Ni ddisgwylir iddo fod yn fater sy'n peri pryder yn y broses sy'n ymwneud ag ymgyngoriadau neu arolygon. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei adolygu fesul achos unigol gan ddibynnu ar y math o ymgynghoriad neu arolwg.

Ni fydd AaGIC yn gyfrifol am gynnwys sydd eisoes wedi'i rannu â'r cyhoedd, er enghraifft ar rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau eraill sydd y tu hwnt i reolaeth AaGIC. Os yw Gwrthrych Data eisiau i'r wybodaeth hon gael ei dileu (a'i bod yn hawdd iddynt ei hadnabod), bydd angen iddo wneud cais i'r sefydliad neu'r cwmni sy'n lletya'r wybodaeth a gofyn iddo ddileu'r wybodaeth.

## 11. Gwneud penderfyniadau awtomataidd

Mae AaGIC hefyd yn darparu mesurau i ddiogelu rhag risgiau sy'n gysylltiedig â phrosesau sy'n cynnwys penderfyniadau awtomataidd.

Mae hyn yn gymwys:

- pan mae'n broses awtomatig;
- pan mae effaith gyfreithiol ar benderfyniad a wnaethpwyd â'r wybodaeth.

Mae'n bosibl y bydd nifer fach o benderfyniadau awtomataidd yn cael eu gwneud â gwybodaeth ymatebwyr wrth ddefnyddio arolygon, ond gan amlaf mae person o gig a gwaed yn ymwneud â hyn. Er enghraifft, bydd angen rhywfaint o awtomeiddio pan fydd person o gig a gwaed yn ymwneud â chynhyrchu data ystadegol at ddibenion adrodd neu ganlyniadau holiaduron ar-lein er mwyn nodi, coladu a lawrlwytho setiau penodol o ddata yn effeithiol i greu adroddiadau a deilliannau.

Fodd bynnag, bydd AaGIC yn cymryd camau i nodi faint o benderfyniadau awtomataidd y mae'n eu gwneud ac a yw'r rhain yn dderbyniol ym mhob proses.

Bydd AaGIC yn sicrhau bod unrhyw broffilio awtomataidd yn deg ac yn gyfreithlon. Bydd AaGIC yn defnyddio gweithdrefnau cywir, er mwyn lleihau gwallau, ac mewn achosion lle mae data'n anghywir.

## 12. Beth am hawliau i gywiro neu ddileu gwybodaeth anghywir?

Os ydych wedi darparu data personol, a'u bod yn cael eu defnyddio at ddibenion ymgynghoriad neu arolwg, mae gennych hawl i ofyn i AaGIC gywiro unrhyw gamgymeriadau yn yr wybodaeth hon, beth bynnag yw'r cyd-destun y mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio ynddo.

Rhaid i AaGIC sicrhau bod gwybodaeth y profwyd ei bod yn anghywir neu'n anghyflawn yn cael ei dileu neu'n cael ei chywiro.

Fodd bynnag, wrth gynhyrchu canlyniadau ymgynghoriad a/neu arolwg, mae'n annhebygol iawn y bydd setiau data unigol yn adnabyddadwy, ac mae'n dibynnu a yw AaGIC yn cadw unrhyw wybodaeth mewn fformat adnabyddadwy, ond gellir trafod hyn.

### Cadw eich gwybodaeth

Ni fyddwn yn storio gwybodaeth am fwy o amser nag y mae ei hangen.

Cedwir ymgyngoriadau cyhoeddus am 5 mlynedd o ddyddiad y camau gweithredu diwethaf.

Cedwir data arolygon am 3 blynedd.

Mae cofnodion yn cael eu storio yn unol â'r amserlen cadw a gwaredu yn y Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn pennu'r cyfnod lleiaf ar gyfer cadw cofnodion.

Bydd AaGIC yn cadw data er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

Mae'n bosibl y bydd angen i ni ddefnyddio eich gwybodaeth o fewn y cyfnod penodedig ar ôl cwblhau ymgynghoriad neu arolwg at ddibenion cyfyngedig, er enghraifft os oes arnom angen eich data personol er mwyn ymateb i unrhyw gwynion neu geisiadau rydych yn eu gwneud.

Fodd bynnag, ni ellir prosesu cwynion os nad yw AaGIC yn derbyn neu'n cadw elfennau o ddata adnabyddadwy er mwyn cyflawni ei amcanion mewn ymgyngoriadau neu arolygon.

### Gwneud cwyn

Os hoffech wneud cwyn yn ymwneud ag unrhyw broblemau rydych wedi'u cael mewn cysylltiad â'ch gwybodaeth, cysylltwch â:

Dafydd Bebb
Ysgrifennydd y Bwrdd
Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Ffôn: 079 7130 0537
Ebost: dafydd.bebb@wales.nhs.uk

Os ydych yn dal yn anfodlon, ar ôl gwneud cwyn, a bod y broblem yn dal heb ei datrys, mae gennych hawl i anfon cwyn i:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
2il Lawr,
Tŷ Churchill,
17 Ffordd Churchill,
Caerdydd, CF10 2HH

Ebost: wales@ico.gsi.gov.uk
Gwefan: www.ico.org.uk